

Rheolau Gweithdrefn Contractau

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cynnwys

		Tudalen
1	<u>Cyflwyniad</u>	3
2	<u>Diffiniadau a Dehongliad</u>	4
3	<u>Bod yn agored ac yn dryloyw</u>	4
4	<u>Cyfrifoldebau'r Swyddog Arweiniol</u>	5
5	<u>Fframweithiau a Threfniadau Cydweithio</u>	8
6	<u>Gofynion Cyn Caffael</u>	10
7	<u>Trothwyon</u>	10
8	<u>Paratoi ar gyfer Dyfynbrisiau (£25,000-£75,000) a Thendrau (dros £75,000)</u>	13
9	<u>Y Broses Gaffael</u>	16
10	<u>Dyfarnu Contractau</u>	19
11	<u>Rheoli Contractau</u>	21
12	<u>Eithriadau a Heggoriadau i'r Gofynion o ran Cystadlu</u>	22
13	<u>Adolygu</u>	26
14	<u>Atodiad 1</u>	27

1. Cyflwyniad

1.1. Diben y Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau yw pennu rheolau clir ar gyfer caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith i'r Awdurdod fel ein bod yn cael y gwerth gorau am arian. Bydd hyn yn sicrhau system o fod yn agored, yn dryloyw ac yn anwahaniaethol lle bydd atebolrwydd a gonestrwydd y broses gaffael yn gwbl ddifrycheulyd.

1.2. Rhaid i swyddogion sy'n gyfrifol am bwrcasu gydymffurfio â'r Rheolau hyn.

1.3. Mae'r Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau yn berthnasol ar gyfer caffael yr holl nwyddau, gwasanaethau a gwaith i'r Cyngor.

1.4. Rhaid cysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol cyn cymryd unrhyw gamau ffurfiol mewn perthynas â nwyddau neu wasanaethau y mae cyfanswm gwerth y contract yn fwy na £75,000.

1.5. Mae'r gofynion o ran cyfrinachedd mewn perthynas â gwybodaeth yn ystod y broses dendro wedi'u nodi yn y Côd Ymddygiad ar gyfer y Swyddogion.

1.6. Mae'n rhaid hysbysebu tendrau dros £ 25,000 ar <http://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru> Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y gofyniad hwn gael ei hepgor yn dilyn cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a Phennaeth Gwasanaeth yr Adran berthnasol. (Gweler RhGC 7.1.3.1 i gael rhagor o fanylion). Mae'n ofynnol i ysgolion ddilyn y gweithdrefnau a amlinellir yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol ar gyfer Ysgolion.

1.7. Mae'n rhaid i'r meini prawf gwerthuso gwaith sy'n werth dros £25,000, ac a arweinir gan yr Awdurdod, gynnwys o leiaf 70% yn seiliedig ar bris. Lle nad yw hyn yn briodol rhaid cael cydsyniad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol. (Gweler RhGC 8.3.1 i gael rhagor o fanylion).

1.8. Bydd pob contract a wneir gan yr Awdurdod neu ar ei ran yn cydymffurfio â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Deddfwriaeth Genedlaethol, y Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau, a Rheolau Gweithdrefn Ariannol yr Awdurdod. Os cyfyd unrhyw wrthdaro mewn perthynas â'r gofynion uchod, mae'r mater i'w gyfeirio at y Swyddog Monitro neu ei gynrychiolydd.

1.9. Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn cadw ac yn diweddarau Cofrestr Contractau yr Awdurdod, a rhaid rhoi gwybod i'r Uned am bob contract yr ymrwymwyd iddo.

1.10. Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn cadw ac yn diweddarau Cofrestr Contractau yr Awdurdod, a rhaid rhoi gwybod i'r Uned am bob contract yr ymrwymwyd iddo, gan gynnwys y rheiny mewn perthynas â fframwaith yn ôl y gofyn.

1.11. Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am bob eithriad er mwyn ei ystyried cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo trwy'r System Adrodd ar Eithriadau ar-lein. - Gweler y tudalennau caffael ar y Fewnrwyd, a bydd eithriadau cymeradwy yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr Contractau. (Gweler RhGC 12 i gael rhagor o fanylion).

1.12. I gael cymorth ynghylch sut i roi'r rheolau hyn ar waith gweler y "Canllawiau Caffael" ar y fewnrwyd sy'n rhoi canllawiau penodol ynghylch gweithdrefnau caffael neu cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael cyngor a chymorth yn ymwneud â dehongli'r rheolau hyn a'u rhoi ar waith.

2. Diffiniadau a Dehongliadau

2.1. At ddibenion y Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau, cyfeiriwch at Atodiad 1 i weld y diffiniadau fydd yn berthnasol.

2.2. Mae'r rheolau hyn yn seiliedig ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd. Wrth i'r Deyrnas Unedig dynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd, bydd unrhyw reolau a gyflwynir yn eu lle gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn berthnasol.

3. Bod yn agored ac yn dryloyw

3.1. Er mwyn trin yr holl gyflenwyr posibl yn deg, yn gyfartal ac mewn modd nad yw'n gwahaniaethu, dylai swyddogion sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag egwyddorion Cytuniad y CE sy'n cynnwys bod yn agored, yn dryloyw, yn gymesur ac yn anwahaniaethol.

3.2. Cydnabyddir y gall gweithgaredd twyllodrus a llwgr ddigwydd ym maes caffael. Dylai swyddogion sydd â chyfrifoldeb caffael fod yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau yn hyn o beth. Mae'r polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol yn y dogfennau canlynol ar hyn o bryd:-

3.2.1. Côt Ymddygiad ar gyfer y Swyddogion

3.2.2. Rheolau Gweithdrefn Ariannol

3.2.3. Côt Moeseg Corfforaethol y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi

3.2.4. Strategaeth Atal Twyll ac Arferion Llwgr

3.2.5. Polisi Datgelu Camarfer

3.3. Rhaid i'r Swyddog Arweiniol (ac aelodau'r Panel Gwerthuso Tendrau) gymryd camau priodol i atal, nodi ac unioni achosion o wrthdaro buddiannau er mwyn osgoi ystumio cystadleuaeth a thrin cynigwyr yn anghyfartal. Dylai camau o'r fath roi sylw i sefyllfaoedd lle mae gan swyddogion neu gynigwyr sy'n gysylltiedig â'r broses gaffael, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw fuddiant ariannol neu bersonol y gellid ystyried ei fod yn peryglu eu didueddrwydd.

3.3.1. Rhaid i'r holl swyddogion sy'n gysylltiedig â Phanel Gwerthuso Tendrau lenwi Ffurflen Datgan Gwrthdaro Buddiannau (a ddarperir gan yr Uned Caffael Corfforaethol).

4. Cyfrifoldebau'r Swyddog Arweiniol

4.1. Ystyr Swyddog Arweiniol, at ddibenion y Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau, yw unrhyw berson a ddynodwyd felly ar gyfer:-

4.1.1. Unrhyw gontract penodedig

4.1.2. Unrhyw gategori neu categorïau o gontractau, neu

4.1.3. Unrhyw werthoedd neu symiau penodol mewn perthynas â'r categori hwnnw neu'r categorïau hynny

4.2. Y Swyddog Arweiniol fydd y prif gyswllt rhwng yr Awdurdod a'r cyflenwr perthnasol, a bydd yn gyfrifol am reoli'r trefniant contractiol hwnnw ac am sicrhau bod y pris(iau) a delir yn unol â thelerau'r contract.

4.3. Rhaid i'r Swyddog Arweiniol roi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am unrhyw fwrriad i gynnal ymarferiad tendro (dros £75,000) cyn cychwyn ar yr ymarferiad tendro.

4.4. Cyn cynnal unrhyw ymarferiad tendro, bydd y Swyddog Arweiniol yn sicrhau:-

4.4.1. Ni ellir ateb y gofyniad drwy gontractau neu fframweithiau corfforaethol presennol, neu drefniadau eraill. Lle mae contractau neu fframweithiau corfforaethol, neu drefniadau caffael sefydledig eraill (e.e. DPS) ar waith, mae'n rhaid defnyddio'r rhain i fodloni'r gofyniad hwnnw. Mae'r adran o'r fewnrwyd yn ymwneud â chaffael yn cynnwys manylion am drefniadau o'r fath. Mae rhagor o gyngor a chyfarwyddyd ar gael gan yr Uned Caffael Corfforaethol ac;

Lotiau

4.4.2. Y cafwyd holl gymeradwyaethau angenrheidiol yr Awdurdod yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod, yn ogystal â darpariaeth gyllidebol, unrhyw gydsyniad neu ganiatâd angenrheidiol, neu gymeradwyaethau eraill (gan gynnwys cymeradwyaethau benthyciadau neu gymeradwyaethau ariannol eraill) ac

4.4.3. Y cydymffurfiwyd â'r holl bolisiau corfforaethol eraill sy'n berthnasol (gan gynnwys y Polisi a'r Fethodoleg ar gyfer Rheoli Prosiectau, y Polisi a'r Weithdrefn Trin Gwybodaeth Bersonol, Canllawiau Diogelu Data, Safonau'r Gymraeg a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol).

Cyllid Allanol

4.5. Rhaid i'r Swyddog Arweiniol ystyried rhannu unrhyw gontract arfaethedig yn lotiau ar wahân, ynghyd â darparu rhesymeg glir a dogfennol ynghylch sut y bydd y lotiau'n cael eu dyfarnu, ac mae'n rhaid diffinio'n glir bynciau'r lotiau a'u maint. Yn achos tendrau sy'n uwch na throthwy'r UE lle bernir ei bod yn amhriodol defnyddio lotiau, mae'n rhaid cofrestru hyn yn y dogfennau tendro a'i gofnodi yn yr Adroddiad Gwerthuso Tendrau. (Gweler RhGC 10.1 i gael rhagor o fanylion).

4.6. Lle bo cyllidwyr allanol yn ariannu rhan o gontract arfaethedig neu'r contract cyfan, bydd y Swyddog Arweiniol yn caffael y contract yn unol â'r Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau.

Lle bo amod yn nhelerau'r cyllidwr sy'n gwrthdaro â'r Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau rhaid cyfeirio'r mater hwn at y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 er mwyn gwneud penderfyniad, oni bai y cytunir ar hyn yn flaenorol yn y cytundeb cyllid.

Risg

Prynu ail-law

4.7. Rhaid i'r Swyddog Arweiniol asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prynu a sut i reoli unrhyw risgiau a nodir cyn i'r ymarferiad tendro ddechrau.

4.8. Yn achos cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau wedi'u defnyddio neu ail-law mae angen i'r Swyddog Arweiniol fod yn fodlon bod y farchnad ar gyfer y fath nwyddau neu ddeunyddiau yn golygu y byddai'n afresymol tendro neu pan fydd yr amser sydd ei angen i gwblhau'r broses dendro yn debygol o arwain at golli cyfle i prynu eitem wedi'i defnyddio neu ail-law. Rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pennaeth Gwasanaeth i sicrhau bod gwerth y nwyddau wedi'u defnyddio/ail-law i'w cyflenwi ar lefel briodol ac nad yw'n mynd yn groes i'r prosesau caffael. Bydd angen i unrhyw ymarferiad caffael sy'n werth dros £5,000 gael ei gyfeirio at y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro.

Gweithdrefnau tendro

System Bwrcasu Ddeinamig a Dulliau e-Ocsiwn

Safonau'r Gymraeg

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Contractau Consesiwn

4.9. Gall y Swyddog Arweiniol gyrchu canllawiau ynghylch y gwahanol weithdrefnau tendro sydd ar gael (e.e. Trafod Cystadleuol, Agored, Cyfyngedig) yng Nghanllawiau Caffael yr Awdurdod. Gellir dewis gwahanol weithdrefnau yn dibynnu ar werth y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael. Mae'r canllawiau ar gael ar y fewnrwyd neu gallwch gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael cyngor.

4.10. Gall y Swyddog Arweiniol gynnal yr ymarferiad caffael drwy ddefnyddio System Bwrcasu Ddeinamig neu Ocsiwn Electronig. Rhaid i'r Swyddog Arweiniol gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyngor a chyfarwyddyd.

4.11. Mae'n ofynnol i'r Swyddog Arweiniol gydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n golygu, yng Nghymru, na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

4.11.1. Mae Mesur y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg hefyd yn berthnasol i unrhyw weithgarwch neu wasanaeth a gyflawnir ar ran y Cyngor gan drydydd parti yn unol â threfniadau a wnaed rhwng y trydydd parti a'r Cyngorau.

4.12. Mae'n rhaid i'r Swyddog Arweiniol ystyried a fydd y Cyngor yn darparu Data Personol i'r cyflenwr/cyflenwyr neu'n casglu data personol ar ein rhan yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 / Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Os mai dyma'r achos, mae'n rhaid ymgynghori â'r Rheolwr Cwynion a Llywodraethu Gwybodaeth i gael arweiniad pellach.

4.12.1. Os yw'r cynnyrch/gwasanaeth sy'n cael ei gaffael yn gofyn am ddefnyddio technolegau newydd wrth gasglu/defnyddio Data Personol a allai fod yn debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid yr unigolion, mae'n rhaid cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data i nodi a lleihau unrhyw risgiau preifatrwydd. Mae'n rhaid cysylltu â'r Rheolwr Cwynion a Llywodraethu Gwybodaeth i gael arweiniad pellach.

4.13. Mae unrhyw Gontractau lle mae'r Contractiwr yn gwneud elw o'r gwaith/gwasanaeth yn dod o dan Reoliadau Contractau Consesiwn 2016. Mae gan y Rheoliadau Contractau Consesiwn drothwy uwch ar gyfer ei gymhwyso (Gweler y tudalennau caffael ar y Fewnrwyd am y trothwy diweddaraf).

Mae'n Rhaid i'r Swyddog Arweiniol gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael arweiniad a chefnogaeth ynghylch cymhwyso Rheoliadau Contractau Consesiwn.

5. Fframweithiau a Threfniadau Cydweithio

Bernir bod pob Trefniant Cydweithredol yn contractau at ddibenion y Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau a bydd Swyddogion Arweiniol yn rhoi sylw i Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 a Chanllawiau Caffael yr Awdurdod wrth ddatblygu trefniadau/cytundebau o'r fath.

5.1. Cytundebau Fframwaith - Sir Gaerfyrddin yn arwain

Yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, rhaid i gyfnod Cytundeb Fframwaith beidio â bod yn fwy na phedair blynedd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a thrwy gael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro

5.1.1. Gellir dyfarnu contractau sy'n seiliedig ar Gytundebau Fframwaith naill ai drwy:-

- 5.1.1.1.** Gweithredu'r telerau a bennwyd yn y cytundeb fframwaith (pan fydd y fath delerau'n ddigon manwl gywir ar gyfer y contract yn ôl y galw dan sylw) heb ailagor cystadleuaeth neu;
- 5.1.1.2.** Lle nad yw'r telerau a bennwyd yn y cytundeb fframwaith yn ddigon penodol neu'n gyflawn ar gyfer y contract yn ôl y gofyn dan sylw, drwy gynnal mini-gystadleuaeth yn unol â'r canlynol:-

- Gwahodd yr holl gyflenwyr yn y Cytundeb Fframwaith sy'n gallu cyflawni pwnc y contract i gyflwyno tendrau ysgrifenedig;
- Pennu terfyn amser sy'n ddigon hir i ganiatáu i dendrau ar gyfer pob contract penodol gael eu cyflwyno, gan gymryd i ystyriaeth gymhlethdod pwnc y contract,
- Dyfarnu pob contract i'r tendrwr ar sail y Meini Prawf Dyfarnu a nodwyd ym manyleb y Cytundeb Fframwaith.

5.1.2. Os yw'n uwch na throthwy'r UE mae'n rhaid i'r Swyddog Arweiniol gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol cyn cynnal unrhyw fini-gystadleuaeth i gytuno ar y dull a ddefnyddir.

5.1.3. Ystyrir bod gofynion y Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau wedi'u diwallu pan sefydlir y fframwaith ac ar gyfer contractau yn ôl y gofyn dilynol.

5.2. Gweithgareddau Prynu Canolog/Caffael ar y Cyd - Trefniadau / fframweithiau yr Awdurdod Arweiniol

- 5.2.1.** Wrth wneud trefniant caffael ar y cyd ar ran yr Awdurdod a chyrrff cyhoeddus eraill, mae'n rhaid i'r Swyddog Arweiniol benderfynu a yw'r Awdurdod yn cyflawni Gweithgareddau Caffael ar y Cyd yn Achlysurol NEU Weithgareddau Prynu Canolog yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Mae'n rhaid cysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael cyngor a chytuno ar y dull gweithredu.
- 5.2.2.** Wrth wneud trefniant caffael ar y cyd ar ran yr Awdurdod a chyrrff cyhoeddus eraill, mae'n rhaid i'r Swyddog Arweiniol sicrhau bod y cyrrff cyhoeddus eraill sydd i'w cynnwys yn y trefniant hwnnw yn cael eu nodi yn yr hysbyseb a dogfennau'r contract.
- 5.2.3.** Rhaid i'r gwerth amcangyfrifedig a roddir gynnwys defnydd posibl y trefniant ar y cyd hwnnw gan y cyrrff cyhoeddus hynny a nodir.
- 5.2.4.** Ystyrir bod gofynion y Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau wedi'u diwallu pan sefydlir y fframwaith ac ar gyfer contractau yn ôl y gofyn dilynol.

5.3. Gweithgareddau / Cyrff Prynu Canolog - Defnyddio trefniadau / fframweithiau cyrrff cyhoeddus eraill

- 5.3.1.** Ystyrir bod unrhyw gontract/fframwaith yr ymrwymir iddo drwy gydweithio ag awdurdodau lleol eraill neu gyrff cyhoeddus eraill, os oes proses gystadleuol wedi'i dilyn, sy'n cydymffurfio â rheolau'r sefydliad arweiniol o ran gweithdrefnau contractau, yn cydymffurfio â'r Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau. Cyn dod i unrhyw drefniant o'r fath, mae'n rhaid i'r Swyddog Arweiniol ymgynghori a gofyn am gymeradwyaeth gan yr Uned Caffael Corfforaethol.

5.4. Aelodaeth o Drefniadau Caffael eraill

- 5.4.1.** Mae'n rhaid i unrhyw aelodaeth ffurfiol newydd o unrhyw sefydliad a'i bwrpas yw hwyluso trefniadau caffael ar y cyd ag Awdurdodau lleol eraill a/neu gyrff sector cyhoeddus, gan gynnwys aelodaeth neu ddefnydd cychwynnol o unrhyw Gonsortia neu sefydliad masnachu sector cyhoeddus gael ei gymeradwyo gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151.

6. Gofynion Cyn Caffael

6.1. Amcangyfrif y Gwerth

- 6.1.1.** Rhaid i werth contract fod yn seiliedig ar yr uchaf o'r:-
- 6.1.1.1.** Swm neu swm tybiedig i'w dalu gan yr Awdurdod dros gyfnod y contract (i gynnwys unrhyw gyfnod a estynnwyd); neu
 - 6.1.1.2.** Swm neu swm tybiedig incwm gros i'w gynhyrchu gan y contractwr drwy'r nwyddau neu'r gwasanaethau a ddarperir, gan gynnwys darparu nwyddau neu wasanaethau i drydydd parti.
- 6.1.2.** Ystyrir bod contract sy'n un o gyfres o gontractau â nodweddion cyffelyb, a gwasanaethau o'r un math, â gwerth y gyfres gyfan.
- 6.1.3.** Os nad yw'r Swyddog Arweiniol yn gallu pennu gwerth contract arfaethedig gwneir amcangyfrif ar sail cyfnod contract o 48 mis.
- 6.1.4.** Cofiwch y bydd yn rhaid i swyddogion, wrth amcangyfrif gwerth y contractau perthnasol, ystyried egwyddor cydgasglu. Drwy ailbrynu'r un nwyddau/gwasanaethau/gwaith dros gyfnod estynedig, gall y swm fod yn uwch na throthwyon yr Awdurdod neu'r Undeb Ewropeaidd, ac mae'n rhaid ei drin fel un contract.
- (e.e. bydd 48 o bryniadau misol am £4,000 y mis yn cyfateb i £192,000 o ran gwerth cyfanswm y contract) ac felly bydd yn rhaid cydymffurfio â phroses gaffael briodol yr Undeb Ewropeaidd/Tendro.

7. Trothwyon

7.1. Dyfnbrisiau

7.1.1. Hyd at £5000

Dylai'r Swyddog Arweiniol fod yn fodlon y cafwyd y gwerth gorau am arian, ac y cymerwyd gofal rhesymol i gael nwyddau, gwaith neu wasanaethau o ansawdd digonol am bris cystadleuol. Dylai'r Swyddog Arweiniol gadw cadarnhad ynghylch gwerth am arian ar ffeil.

7.1.2. £5,000 - £25,000

Dylid ceisio o leiaf 3 dyfnbris o ffynonellau cystadleuol a dylent gael eu cadarnhau yn ysgrifenedig, drwy lythyr, ffacs neu e-bost. Rhaid cadw cofnod dogfennol o'r gwerthusiad a'r penderfyniad i ddyfarnu.

7.1.3. £25,000 - £75,000

7.1.3.1. Mae'n rhaid hysbysebu pob dyfynbris sy'n fwy na £25,000 ar wefan GwerthwchiGymru; <http://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru> yn seiliedig ar yr un fanyleb, meini prawf gwerthuso a dyddiad cau. Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn gosod yr hysbyseb, oni bai y cytunir fel arall. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y gofyniad hwn gael ei hepgor yn dilyn cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol a Phennaeth Gwasanaeth yr Adran berthnasol.

7.1.3.2. Bydd y dyfynbrisiau a gyflwynir yn unol â 7.1.3.1 yn cael eu cyflwyno yn unol â'r gofynion a nodwyd yn y Gwahoddiad i Gyflwyno Dyfynbris, a'u dychwelyd yn electronig drwy gyfleuster e-bost diogel neu wasanaeth e-dendro priodol. Fel arall rhaid anfon copi caled at y Swyddog Arweiniol mewn amlen blaen wedi'i selio ac arni'r gair "Dyfynbris" yn unig ynghyd â'r mater dan sylw a'r dyddiad cau.

7.1.3.3. Bydd y Swyddog Arweiniol yn gyfrifol am gadw cofnodion dogfennol digonol o'r holl ymarferiadau ceisio dyfynbrisiau a gynhelir (gan gynnwys y broses werthuso) (Gweler 9.7 i gael rhagor o fanylion).

7.1.3.4. Gellir cyflwyno dyfynbris yn unol â'r gweithdrefnau drwy gyflwyno naill ai llythyr neu orchymyn swyddogol a lofnodir gan y swyddog priodol, neu drwy gontract neu gytundeb a lofnodir yn unol â'r Rheolau hyn.

7.1.3.5. Os mai dim ond un dyfynbris sy'n dod i law yn dilyn y Gwahoddiad i Gyflwyno Dyfynbris, rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan Bennaeth Gwasanaeth yr adran berthnasol.

7.2. Tendrau

7.2.1. Dros £75,000

- 7.2.1.1.** Yn achos yr holl ymarferiadau caffael sy'n werth £75,000 a drosodd, rhaid i Swyddog Arweiniol y Contract roi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol cyn dechrau'r ymarferiad tendro.
- 7.2.1.2.** Mae'n rhaid i Brif Swyddog Caffael yr Uned Caffael Corfforaethol - Arweinydd Categori (neu'r Swyddog dirprwyedig) lenwi a llofnodi Ffurflen Cofnodi Tendir, cyn hysbysebu'r tendr sy'n cynnwys y gofyniad i gadarnhau proses gwynion.
- 7.2.1.3.** Yn ogystal ag unrhyw ofynion o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, rhaid rhoi hysbysiad cyhoeddus am 21 diwrnod o leiaf ar www.gwerthwchigymru.llyw.cymru ac, os bydd y Panel Gwerthuso Tendrau yn credu ei bod yn briodol, mewn un neu ragor o gyfnodolion masnach, cyhoeddiadau a/neu bapurau newyddion lleol, rhanbarthol a/neu genedlaethol neu gyfryngau eraill sy'n targedu'r farchnad berthnasol ar gyfer y contract penodol.
- 7.2.1.4.** Bydd yr hysbysiad cyhoeddus yn cyfleu natur a dibenion y contract, yn gwahodd tendrau ar gyfer ei gyflawni, ac yn nodi'r dyddiad a'r amser olaf i ddarparu tendrau a'r cyfeiriad y dylid anfon y fath dendrau iddo/neu'r porth i'w derbyn drwyddo. Bydd y Gwahoddiad i Dendro yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â darpariaethau'r Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau, gan gynnwys y meini prawf gwerthuso.

7.3. Tendrau'r UE

Contractau sy'n uwch na throthwy'r UE ac yn destun Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

7.3.1. Os yw gwerth amcangyfrifedig contract yn fwy na throthwy presennol yr UE, rhaid tendro am y contract yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig (2015) a'r Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau. Yn yr holl amgylchiadau o'r fath, rhaid cael cyngor priodol gan yr Uned Caffael Corfforaethol.

7.3.2. Mae trothwyon yr UE yn newid bob dwy flynedd. Gellir dod o hyd i drothwy presennol yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a gwaith ar y tudalennau Caffael ar y fewnwyd.

7.4. Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Penodol Eraill

7.4.1. Os bydd contractau'n uwch na throthwy'r UE ar gyfer Contractau Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Penodol eraill (fel y nodwyd yn Atodlen 3 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015) ni fydd ystod lawn y Rheoliadau'n berthnasol a defnyddir trefn "Lai Manwl". Rhaid i'r Swyddog Arweiniol gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol cyn symud ymlaen â'r math hwn o dendro.

8. Paratoi ar gyfer Dyfynbrisiau (£25,000-£75,000) a Thendrau (dros £75,000)

8.1. Cyn cychwyn ar unrhyw weithdrefn dendro (neu ddyfynbris sy'n fwy na £25,000), bydd Swyddog Arweiniol yn gwneud y canlynol:-

8.1.1. sicrhau bod Manyleb, fydd yn sail i'r Contract, wedi'i pharatoi,

8.1.2. pennu'r meini prawf gwerthuso i'w defnyddio i ddewis y cynigydd/cynigwyr llwyddiannus o blith y sawl sydd wedi tendro neu gyflwyno dyfynbris.

8.1.3. sefydlu Panel Gwerthuso,

8.2. Rhaid cynnwys datganiad yn y dogfennau tendro/dyfynbris sy'n disgrifio'r meini prawf gwerthuso fydd yn cael eu defnyddio, ynghyd

Meini Prawf Gwerthuso

â'r pwysoliad a roddir i bob un. Rhaid i'r meini prawf hyn bob amser fod yn agored, yn dryloyw, yn anwahaniaethol ac yn gymesur.

8.3. Rhaid dyfarnu contractau ar sail "Y Tendir Mwyaf Manteisiol yn Economaidd" (MEAT) a gellir dewis asesu'r gymhareb pris-ansawdd gorau, neu'r pris isaf yn unig. Rhaid i'r meini prawf dyfarnu fod yn gysylltiedig â phwnc y contract a gallai gynnwys costio cylch oes, agweddau ansoddol, amgylcheddol a/neu gymdeithasol.

8.3.1. Mae angen i'r meini prawf ar gyfer gwerthuso gwaith sy'n werth dros £25,000, ac a arweinir gan yr Awdurdod, sicrhau bod o leiaf 70% yn seiliedig ar bris. Lle nad yw hyn yn briodol rhaid cael cydsyniad ysgrifenedig Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol.

8.3.2. Bydd trefniadau yn ymwneud â chomisiynu Addysg Arbenigol a Gofal Cymdeithasol yn ôl disgrisiwn y Cyfarwyddwr cyfrifol.

Panel Gwerthuso

8.4. Bydd y Swyddog Arweiniol yn sefydlu grŵp o swyddogion i gynnal yr ymarferiad gwerthuso a fydd fel arfer yn parhau'n gyson drwy gydol y broses a bydd ganddo'r cymwysterau a/neu'r arbenigedd angenrheidiol i gynghori'r Swyddog Arweiniol ynghylch yr holl faterion priodol.

Asesiadau Ariannol

8.5. Mae'n rhaid ymgynghori â thîm Cyllid yr Awdurdod cyn i'r ymarfer tendro ddechrau i bennu'r lefel briodol o asesiad ariannol sy'n ofynnol, yn ystod y cam tendro a thrwy gydol y fframwaith/contract a ddyfarnwyd wedi hynny (lle bo hynny'n briodol). Mae'n rhaid i swyddogion cymwys yn y tîm cyllid gynnal yr holl asesiadau ariannol priodol fel rhan o'r Broses Gaffael.

Yswiriant

8.6. Ymgynghorir â Phennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yr Awdurdod i bennu'r math priodol a'r lefel briodol o Yswiriant (e.e. Atebolrwydd Cyflogwyr, Atebolrwydd Cyhoeddus, Indemniad Proffesiynol ac ati) ar gyfer rhwymedigaeth bosibl yr Awdurdod y mae'n rhaid ei gynnal am gyfnod y contract/fframwaith.

8.7. Bydd y Swyddog Arweiniol yn ystyried a yw bond yn briodol ar gyfer unrhyw gontract.

Y fanyleb

8.8. Dylai pob ymarferiad caffael fod yn seiliedig ar fanyleb benodol; a dylai'r Swyddog Arweiniol sicrhau bod unrhyw ymarferiad tendro neu

gyflwyno dyfynbrisiau yn cael ei gynnal yn unol â'r holl bolisiau corfforaethol perthnasol.

Dylai ffactorau ansawdd, i'r graddau mwyaf posibl, gael eu cynnwys yn y fanyleb, y mae'n rhaid iddi fod yn gymesur ac yn briodol ar gyfer y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau i'w prynu gan nodi'n glir y safonau gofynnol fydd eu hangen ar yr Awdurdod.

Cynaliadwy

8.9. Yn achos unrhyw dendr/dyfynbris sy'n werth dros £25,000 rhaid i'r Swyddog Arweiniol roi ystyriaeth i faterion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gan ddefnyddio Templed Aseiad Risg Cynaliadwy. Ymgynghorir â'r Uned Caffael Corfforaethol cyn unrhyw dendr/dyfynbris/contract yn ôl y gofyn er mwyn cytuno ar y dull a ddefnyddir.

Budd i'r Gymuned

8.10. Rhaid i'r Swyddog Arweiniol ddefnyddio ymagwedd Budd i'r Gymuned wrth ymdrin â phob ymarferiad caffael priodol. Yn achos unrhyw dendr sy'n werth dros £1 filiwn, rhaid i'r Swyddog Arweiniol, fel gofyniad lleiaf, weithredu, casglu a chofnodi'r Budd i'r Gymuned gan ddefnyddio Offeryn Llywodraeth Cymru ar gyfer Mesur y Budd i'r Gymuned. Ymgynghorir â'r Uned Caffael Corfforaethol cyn unrhyw dendr/dyfynbris/contract yn ôl y gofyn er mwyn cytuno ar y dull a ddefnyddir.

Ymgynghori â'r farchnad cyn ymarferiad caffael

8.11. Gall y Swyddog Arweiniol ymgynghori â'r farchnad cyn dechrau ymarferiad caffael gyda golwg ar baratoi'r gwaith caffael a rhoi gwybod i ddarpar dendrwyr am y cynlluniau a'r gofynion caffael. Rhaid rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol cyn ymgynghori â'r farchnad lle mae cymorth ar gael.

Briffio'r Farchnad

8.12. Mae'r Swyddog Arweiniol yn gallu briffio'r farchnad ar ôl i'r hysbyseb dendro gael ei chyhoeddi er mwyn rhoi gwybod i ddarpar dendrwyr am y cynnwys a'r dull a ddefnyddir ar gyfer yr ymarferiad tendro arfaethedig. Bwriad y digwyddiad hwn yw rhoi gwybodaeth yn unig ac ni all Swyddogion Arweiniol/Swyddogion Caffael ateb unrhyw gwestiynau ynghylch y tendr yn y digwyddiad. Rhaid rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol cyn briffio'r farchnad lle mae cymorth ar gael.

9. Y Broses Gaffael

9.1. Cyflwyno Tendrau (dros £75,000)

(Yn achos dyfynbrisiau sydd o dan £75,000 gweler 7.1).
Tendro drwy ddulliau electronig a ffafirir gan yr Awdurdod.

9.1.1. Tendro Electronig (e-dendro)

Dylai ceisiadau am wahoddiadau i dendro gael eu cyflwyno drwy ddulliau electronig gan ddefnyddio'r porth e-dendro. Bydd hyn yn sicrhau:

(a) y bydd y porth e-dendro ar gael i gyflwyno tendrau dim ond hyd at yr amser a'r dyddiad cau a nodir. Bydd dyddiad ac amser pob tendr a gyflwynir drwy'r porth e-dendro yn cael eu cofnodi'n electronig.

(b) bod yr e-dendrau a gyflwynir yn cael eu cadw'n ddiogel yn y porth na chaiff ei agor tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau neu ddyfynbrisiau.

Ni fydd unrhyw dendr sydd wedi dod i law ar ôl y dyddiad a'r amser a nodir ar gyfer derbyn tendrau, yn cael eu hystyried, ond byddant yn cael eu cadw heb eu hagor ar y porth hyd nes y bydd tendr wedi cael ei dderbyn. Fodd bynnag gall unrhyw dendr o'r fath gael ei agor a'i ystyried:-

- os nad oes tendr arall wedi dod i law, neu
- os nad oes dim tendr arall yn dderbyniol, cyn belled â'i fod wedi'i gyflwyno cyn bod y tendrau eraill wedi'u hagor.

9.1.2. Mewn amgylchiadau eithriadol gall y Swyddog Arweiniol benderfynu derbyn tendr ar ffurf copi caled fel dewis arall. Rhaid i'r Swyddog Arweiniol gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael rhagor o gyfarwyddyd.

9.2. Agor Tendrau

Bydd pob tendr a gyflwynir yn unol â'r Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau yn cael ei agor dim ond ar ôl i'r amser a bennwyd ar gyfer cyflwyno tendrau ddod i ben. Ar ôl i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau ddod i ben bydd modd i swyddog o'r Uned Caffael Corfforaethol, neu swyddog o adran sydd wedi cael caniatâd i gael mynediad i'r porth, weld y tendrau a gyflwynir.

9.2.1. Ni chaniateir newid na chymhwyso unrhyw dendr(au).

Ymdrinnir â chamgymeriadau y deuir ar eu traws wrth archwilio tendrau mewn un o'r ffyrdd canlynol:-

9.2.1.1. Os deuir ar draws camgymeriad rhifyddol, bydd y tendrwr yn cael cyfle i gywiro'r camgymeriad(au), ac ar wahân i gamgymeriad(au) rhifyddol dilys, ni chaniateir unrhyw newid, diwygio neu gymhwyso arall.

9.2.1.2. Os nad yw'r camgymeriad yn un rhifyddol, rhoddir manylion i'r tendrwr am y camgymeriad neu'r camgymeriadau, a chaiff gyfle i gadarnhau ei dendr heb ei newid, neu dynnu ei dendr yn ôl.

9.3. Os bydd y Swyddog Arweiniol o'r farn fod y tendr yn afresymol o isel o ran gwerth, bydd yn rhaid i'r Swyddog Arweiniol, yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus, ofyn i'r tendrwr/tendrwr egluro'r pris neu'r costau a gynigir mewn tendr lle mae'n ymddangos yn afresymol o isel. Rhaid ymgynghori â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael arweiniad.

9.4. Gwerthuso a Derbynn Tendrau

9.4.1. Lle mae tendrau wedi dod i law ac wedi cael eu hagor yn unol â'r Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau, bydd y Swyddog Arweiniol, ar y cyd â'r panel gwerthuso tendrau, yn archwilio'r tendrau a gyflwynwyd yn unol â'r meini prawf gwerthuso y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw, ac yn clustnodi'r tendr neu'r tendrau sydd yn rhoi'r gwerth gorau am arian, h.y. y cynnig/cynigion mwyaf manteisiol yn economaidd (o ran ansawdd a phris) i'r Awdurdod, heblaw pan benderfynwyd ymlaen llaw mai'r pris isaf yw'r maen prawf priodol.

9.4.2. Rhaid i'r Swyddog Arweiniol roi ystyriaeth briodol i gydymffurfio ag egwyddor Cyfansoddiad yr Awdurdod sef mai dim ond swyddogion a gyflogir gan yr Awdurdod gaiff sgorio tendrau wrth eu gwerthuso.

9.4.3. Ar gyfer Ymarferion Tendr Caffael sy'n amodol ar / a lywodraethir gan / gyda Chyd-bwyllgor Llywodraethu, caiff croestoriad o swyddogion o gyrff Sector Cyhoeddus eraill, yn amodol ar y cyrff hynny yn cael eu cymeradwyaeth eu hunain ymlaen llaw, eistedd ar Banel gwerthuso tendr yr Awdurdod a darparu sgôr.

9.4.4. Cyn belled â bod y ddarpariaeth gyllidebol briodol ar gael, gall y Swyddog Arweiniol dderbyn tendr, mwy nag un tendr neu ran/rhannau o dendr.

Negodi ar ôl tendro

Cyfnod Segur

Cadw Dogfennau

Ymgynghorwyr

9.5. Ni cheir negodi unrhyw agweddau sylfaenol ar gontractau a allai effeithio'n sylweddol ar fanyleb y tendr, ac sy'n debygol o ystumio cystadleuaeth.

Gellir cynnal trafodaethau gyda thendrwy'r dim ond er mwyn egluro eu cynigion, a rhaid iddynt beidio â gwahaniaethu yn erbyn unrhyw dendrwr.

9.6. Yn achos contractau sy'n uwch na throthwy'r UE ac yn destun Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 rhaid cael cyfnod segur o 10 diwrnod calendr o leiaf ar ôl rhoi gwybod am y penderfyniad o ran y bwriad i ddyfarnu'r contract. Gall yr Uned Caffael Corfforaethol gynnig arweiniad a thempledi.

9.7. Bydd y Swyddog Arweiniol yn cadw pob cofnod a dogfen sy'n ymwneud ag ymarferiad tendro neu geisio dyfynbris yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rhestr yr Awdurdod o Ddogfennau a Gedwir (ar y fewnrwyd) ac unrhyw ofynion eraill a osodir gan gyrrff ariannu allanol neu y cytunir arnynt gan y cyrrff hynny.

9.8. Defnyddio Ymgynghorwyr

9.8.1. Os bydd yr Awdurdod yn defnyddio ymgynghorwyr i weithredu ar ei ran i gynnal unrhyw ymarferiad caffael, mae'n rhaid i'r Swyddog Arweiniol gysylltu â'r Uned Caffael Corfforaethol i gytuno ar y dull a ddefnyddir. Rhaid i'r ymgynghorydd/ymgynghorwyr gyflawni'r ymarferiad tendro yn unol â'r Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau, a'r Swyddog Arweiniol sy'n gyfrifol am benderfynu ar y tendr llwyddiannus.

9.8.2. Bydd yr holl gontractau ar gyfer ymgynghorwyr a chynghorwyr allanol yn gofyn yn benodol bod yr ymgynghorwyr neu'r cynghorwyr yn darparu'n ddiymdroi yr holl ddogfennau a chofnodion y maent yn eu cadw yn ymwneud â'r gwasanaethau a ddarperir ar gais y Swyddog Arweiniol, ac yn cyflwyno'r holl ddogfennau a chofnodion o'r fath i'r Swyddog Arweiniol ar ddiwedd y contract.

9.8.3. Bydd y Swyddog Arweiniol yn sicrhau bod gan unrhyw ymgynghorydd sy'n gweithio i'r Cyngor yr yswiriant indemniad priodol am hyd y contract.

10. Dyfarnu'r Contract

10.1. Yn unol â Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, mae'n rhaid i'r Swyddog Arweiniol Iunio Adroddiad Gwerthuso Tendrau ar gyfer pob contract, cytundeb fframwaith a mini-gystadleuaeth a ddyfernir sy'n uwch na throthwy'r UE. Rhaid i'r adroddiad ysgrifenedig gofnodi'r holl benderfyniadau allweddol drwy gydol y broses dendro. Mae templed Adroddiad Gwerthuso safonol ar gael gan yr Uned Caffael Corfforaethol.

10.2. Rhaid rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am bob contract yr ymrwymir iddo er mwyn ei gynnwys yn y Gofrestr Contractau.

10.3. Telerau ac Amodau Contractau

10.3.1. Ymrwymir i gontractau yn ôl telerau ac amodau'r Awdurdod fydd wedi'u cynnwys gyda phob Gwahoddiad i Dendro. Rhaid i unrhyw eithriad i'r Rheol hon gael ei chymeradwyo'n ysgrifenedig gan y Swyddog Monitro.

10.3.2. O dan y rheolau hyn ni chaniateir contract sydd yn unol â thelerau ac amodau safonol y contractwr ei hun, neu delerau sy'n sylweddol wahanol i'r rheiny sydd wedi'u cynnwys neu a gyfeirir atynt adeg dendro, oni bai bod hyn yn cael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan y Swyddog Monitro.

10.3.3. Mae'r rheolau sy'n ymwneud â manylebau technegol yn golygu bod unrhyw gyfeiriad at safon dechnegol, gwneuthuriad neu fath yn dwyn y rhagair "neu'r cyfwerth yn yr UE".

10.3.4. Rhaid i bob contract y mae ei werth neu ei swm yn fwy na £75,000 fod yn ysgrifenedig a'i lofnodi gan o leiaf ddau swyddog, neu (yn ôl disgrisiwn y Swyddog Monitro) yn dwyn sêl gyffredin yr Awdurdod ac yn dwyn manylion am:-
y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith sydd i'w cyflenwi neu eu cyflawni;

- y pris sydd i'w dalu, ynghyd â datganiad ynghylch swm unrhyw ostyngiad neu swm arall sydd i'w dynnu allan;

- y cyfnod ar gyfer cwblhau'r contract, ac

- unrhyw amodau a thelerau eraill y cytuna'r partion arnynt.

10.3.5. Bydd y contract yn cynnwys cymal sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr gael caniatâd ysgrifenedig y Swyddog

Arweiniol cyn neilltuo neu is-osod y contract neu unrhyw ran ohono, ac eithrio fel y caniateir yn benodol o dan delerau'r contract.

10.3.6. Lle bo codau ymarfer safonol neu fanylebau Safon Brydeinig, Ryngwladol neu Ewropeaidd ar gael ac yn gyfredol adeg tendro, bydd y contract yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl nwyddau, gwasanaethau neu weithiau a ddefnyddir neu a gyflenwir yn cydymffurfio â'r safon honno.

10.3.7. Bydd pob contract ysgrifenedig yn cynnwys cymal yn ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwydddebau neu reoliadau perthnasol y Comisiwn Ewropeaidd sydd mewn grym yr adeg honno yn y Deyrnas Unedig.

10.3.8. Rhaid i bob contract ddatgan os bydd y contractwr yn methu â chydymffurfio â'i holl ymrwymadau contractiol neu ran ohonynt, y gall yr Awdurdod:-

- canslo'r contract cyfan neu ran ohono;
- cwblhau'r contract;
- adennill oddi wrth y contractwr unrhyw gostau ychwanegol a achoswyd wrth gwblhau'r contract;
- cymryd camau cyfreithiol eraill yn erbyn y contractwr ac i'r diben hwn bydd y Swyddog Arweiniol yn sicrhau bod ymrwymadau'r contract yn cael eu monitro.

10.3.9. Mae'n rhaid i bob contract ysgrifenedig nodi y bydd y contractwr yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a chodau cymwys sy'n ymwneud â gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredd gan gynnwys Deddf Llwgrwobrwyo 2010, ond heb fod yn gyfyngedig iddi.

10.3.10. Bydd yn ofynnol i'r contractwr indemnio'r Awdurdod rhag:-

10.3.10.1. unrhyw hawliad mewn perthynas ag atebolrwydd cyflogwyr yn erbyn yr Awdurdod neu yn erbyn y contractwr gan unrhyw weithiwr i'r contractwr neu unrhyw is-gontractwr; a

10.3.10.2. unrhyw hawliad am anaf corfforol i, neu ddifrod i eiddo, trydydd parti, a

10.3.10.3. Mae'r contractwr i feddu ar yswiriant priodol hyd at lefel i'w chytuno arni (gweler RhGC 8.5) a phan ofynnwyd iddo wneud hynny bydd yn dangos tystiolaeth foddhaol ei fod yn meddu ar y cyfryw yswiriant.

11. Rheoli Contractau

11.1. Ar ôl dyfarnu'r contract rhaid clustnodi Rheolwr Contract (os yw'n wahanol i'r Swyddog Arweiniol) a fydd yn rheoli'r agweddau ar y contract o ddydd i ddydd yn ystod cyfnod y contract. Mae'n rhaid cytuno ar gynllun rheoli contract priodol ar ôl y dyfarniad a chael cyngor gan yr Uned Caffael Corfforaethol.

11.2. Pan fydd contractau'n cael eu haddasu ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod y contract bydd angen cynnal proses dendro newydd oni bai y cydymffurfir ag amodau penodol a nodir yn y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (2015). Rhaid gofyn am gyngor gan yr Uned Caffael Corfforaethol cyn symud ymlaen o dan yr amodau hyn.

11.3. Estyn Contractau

11.3.1. Gellir caniatáu estyn cyfnod y contract cyn belled ag y cydymffurfir â'r amodau canlynol;

- os bydd y ddogfen dendro wreiddiol a'r contract dilynol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer estyn y contract ac;

- wedi nodi hyd neu hyd mwyaf yr estyniad posibl gellir estyn y contract ac;

- os yw'r Swyddog Arweiniol yn fodlon bod y darparwr presennol yn cynnig y gwerth gorau am arian a gwasanaeth/nwyddau/gwaith o ansawdd.

11.3.2. Rhaid i Bennaeth Gwasanaeth lofnodi ffurflen Estyn Contract cyn estyn unrhyw gontract. Cysylltwch â'r Uned Caffael Corfforaethol i gael y templed.

Rheoli
Contractau

Addasu
Contractau

Estyn
Contractau

12. Eithriadau a Hepgoriadau i'r Gofynion o ran Cystadlu

12.1. Penderfyniad y Swyddog Arweiniol

12.1.1. Cyn belled â bod y contract arfaethedig yn cydymffurfio â phob Rheol arall berthnasol o ran Gweithdrefnau Contractau, Canllawiau Caffael neu Reolau Gweithdrefn Ariannol, ni fydd angen i'r gweithdrefnau tendro fod yn berthnasol i'r canlynol:-

12.1.1.1. unrhyw gyngor neu wasanaeth a ddarperir gan Gwnsler.

12.1.1.2. pryniadau a wnaed gan yr Awdurdod ar y cyd â chorff cyhoeddus arall yn unol â thelerau unrhyw Gontractau neu Gytundebau Fframwaith a drefnwyd gan neu ar ran unrhyw gonsortiw, cymdeithas (gan gynnwys trefniadau Sector Cyhoeddus Cymru Gyfan) neu gorff tebyg, cyn belled â bod y gweithdrefnau a ddilynir yn cydymffurfio â dull a bennwyd neu a fabwysiadwyd gan y consortiw, cymdeithas neu gorff tebyg (gweler RhGC 5.5.1).

12.1.1.3. pryniadau, gwaith a gwasanaethau sy'n ofynnol gan y Swyddog Arweiniol at y dibenion canlynol:-

- rhwystro perygl neu niwed i staff yr Awdurdod neu aelodau o'r cyhoedd;
- rhwystro difrod neu ddirywiad difrifol i dir, adeiladau neu offer;
- cynnal gwasanaethau hanfodol;
- osgoi camau gorfodi yn erbyn yr awdurdod am fethu â chydymffurfio â rhyw ddarpariaeth statudol;
- gwneud tir neu eiddo'n ddiogel rhag mynediad neu ddefnydd heb ganiatâd;

- at unrhyw ddiben arall lle bydd yr Awdurdod neu'r cyhoedd yn cael eu peryglu'n ddifrifol oni fydd y cyfryw bryniadau, gwaith neu wasanaethau yn cael eu trefnu ar frys;

ar yr amod bod y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau'n gwbl angenrheidiol am resymau hynod frys yn sgil digwyddiadau nad oedd modd eu rhagweld lle na ellir cydymffurfio â therfynau amser ymarferiad caffael. Dylai ymarferiad caffael yn unol â'r Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau hyn gael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.

- 12.1.1.4.** gwaith neu wasanaethau i gyfarpar ymgymerwyr statudol y mae gwaith mawr yn effeithio arno lle bo deddfwriaeth yn nodi bod yn rhaid i'r ymgymerwr statudol gyflawni'r fath waith.

12.2. Pennaeth Refeniw a Phenderfyniad Chydymffurfiaeth Ariannol) (Hyd at £25,000)

- 12.2.1.** Dylai'r Swyddog Arweiniol geisio cymeradwyaeth gan y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol ar gyfer unrhyw eithriad a gynigir o dan y CPR 12.2 hwn cyn cychwyn ar y weithdrefn amgen neu, os nad yw hyn yn bosibl, cyn gynted â phosibl wedi hynny: -

- 12.2.1.1.** prynu nwyddau, gwasanaethau neu waith perchnogol neu sydd wedi'u patentu, gan un cwmni yn unig a lle nad oes dewis arall rhesymol boddhaol ar gael;
- 12.2.1.2.** mae'n ofynnol bod y nwyddau, gwasanaethau neu waith a enwyd yn cael eu prynu yn gydnaws â rhywbeth sydd wedi'i osod eisoes fel yr awdurdodwyd gan y Swyddog Arweiniol;
- 12.2.1.3.** gwneud gwaith neu gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu waith o fath arbenigol sydd, ym marn y Swyddog Arweiniol, yn cael eu gwneud gan un darparwr yn unig, a lle nad oes dewis arall rhesymol boddhaol ar gael;

Ar gyfer
Dyfnbrisia
u a
Thendrau
sy'n uwch
na £25,000
a hyd at
drothwy
Cyfnodolyn
Swyddogol
yr Undeb
Ewropeaidd

- 12.2.1.4.** prynu darn o gelfyddyd neu eitem ar gyfer amgueddfa fel yr awdurdodwyd gan y Swyddog Arweiniol;
- 12.2.1.5.** Contractau a drefnwyd gan yr Awdurdod fel cynrychiolwyr Adran Wladol, Llywodraeth Cymru neu awdurdod lleol neu gyhoeddus arall ar yr amod bod yr Awdurdod yn dilyn gweithdrefnau'r cyfryw adran neu awdurdod;
- 12.2.1.6.** bydd unrhyw eithriadau a hepgoriadau eraill i'r rheolau hyn ond yn cael eu caniatáu mewn amgylchiadau eithriadol a chânt eu hawdurdodi gan y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol yn sgil cael cyfiawnhad ysgrifenedig gan y Swyddog Arweiniol perthnasol
- 12.2.1.7.** Ar gyfer eithriadau sy'n ofynnol o fewn maes gwasanaeth y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol, bydd angen cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol yn lle hynny.

12.3. Penderfyniad y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151

- 12.3.1.** Mae'r Swyddog Arweiniol i gael cymeradwyaeth y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 i unrhyw eithrio a gynigir o dan RhGC 12.2 cyn cychwyn ar y weithdrefn wahanol, neu os nad yw hyn yn bosibl, cyn gynted ag y bo modd wedi hynny:-
 - 12.3.1.1.** prynu nwyddau, gwasanaethau neu weithiau masnachol neu wedi'u patentu, sydd ar gael oddi wrth un cwmni yn unig a lle nad oes dewis arall rhesymol foddhaol ar gael;
 - 12.3.1.2.** prynu cynnyrch penodol y mae'n ofynnol iddo fod yn gydnaws â rhywbeth sydd wedi'i osod eisoes fel yr awdurdodwyd gan y Swyddog Arweiniol;
 - 12.3.1.3.** gwneud gwaith neu gyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu waith o fath arbenigol sydd, ym marn y Swyddog Arweiniol, yn cael eu gwneud gan un darparwr yn unig, a lle nad oes dewis arall rhesymol boddhaol ar gael;
 - 12.3.1.4.** prynu darn o gelfyddyd neu eitem ar gyfer amgueddfa fel yr awdurdodwyd gan y Swyddog Arweiniol;

12.3.1.5. Contractau a drefnwyd gan yr Awdurdod fel cynrychiolwyr Adran Wladol, Llywodraeth Cymru neu awdurdod lleol neu gyhoeddus arall ar yr amod bod yr Awdurdod yn dilyn gweithdrefnau'r cyfryw adran neu awdurdod;

12.3.1.6. bydd unrhyw eithriadau a hepgoriadau eraill i'r rheolau hyn ond yn cael eu caniatáu mewn amgylchiadau eithriadol a chânt eu hawdurdodi gan y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 yn sgil cael cyfiawnhad ysgrifenedig gan y Swyddog Arweiniol perthnasol.

12.4. Penderfyniad y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 (uwchben trothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd)

12.4.1. Pan fydd Gweithdrefn drwy Negodi heb Hysbysu Ymlaen Llaw (Gweithdrefn Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd) yn cael ei chynnig bydd yn ofynnol i'r Swyddog Arweiniol geisio cymeradwyaeth gan y Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151.

12.4.1.1. Gellir defnyddio Gweithdrefn drwy Negodi heb Hysbysu Ymlaen Llaw dim ond yr achosion canlynol: -

(a) lle na gyflwynwyd dim tendrau, dim tendrau addas, dim ceisiadau i gymryd rhan neu ddim ceisiadau addas i gymryd rhan mewn ymateb i weithdrefn agored neu gyfyngedig.

(b) lle bo'r gwaith, y cyflenwyr, neu'r gwasanaethau yn gallu cael eu darparu gan weithredwr economaidd penodol yn unig, am unrhyw un o'r rhesymau canlynol: -

- (i) nod y caffael yw creu neu gaffael gwaith unigryw o gelf neu berfformiad artistig,
- (ii) nid oes cystadleuaeth am resymau technolegol;
- (iii) amddiffyn hawliau addas, gan gynnwys hawliau eiddo deallusol.

Ond dim ond, yn achos paragraffau (ii) a (iii) lle nad oes dewis amgen neu eilydd rhesymol yn bodoli, ac nid yw'r ffaith nad oes cystadleuaeth

yn bodoli yn golygu bod terfynau'r broses gaffael wedi cael eu lleihau yn artiffisial.

(c) cyn belled ag y bo'r angen, am resymau brys iawn sy'n deillio o ddigwyddiadau na ellid eu rhagweld gan yr awdurdod contractio, ni ellir cydymffurfio â'r terfynau amser ar gyfer y gweithdrefnau agored neu gyfyngedig neu weithdrefnau cystadleuol drwy negodi.

12.4.2. Rhaid cyfeirio unrhyw eithriadau a hepgoriadau i'r Rheolau hyn sydd uwchben trothwy Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (tu allan i 12.4.1) i'r Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 trwy'r System Adrodd ar Eithriadau ar-lein, ac yna caiff y rhain eu cyfeirio i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (TRhC).

Adrodd ar
Weithred
Tendr
Unigol

12.5. Adrodd ar Weithred Tendr Unigol (dros £75,000)

12.5.1. Bydd y Swyddog 151 yn paratoi adroddiad ôl-weithredol i Bwyllgor Archwilio'r Awdurdod ar gyfer pob Gweithred Tendr Unigol (rhoddwyd eithriadau o dan gymalau 12.2 neu 12.3 uchod ar gyfer y rhai sydd dros £75,000) a'r camau caffael dilynol a gymerwyd.

Adroddiada
u'r Uned
Caffael
Corfforaeth
ol

12.6. Adrodd ar eithriadau

12.6.1. Mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am bob eithriad er mwyn ei ystyried cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo trwy'r System Adrodd Eithriadau ar-lein, a chânt eu cofnodi ar y Gofrestr Contractau.

Adolygu

13. Adolygu

13.1. Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn adolygu'r Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau yn barhaus, a byddant yn cynnal adolygiad ffurfiol bob tair blynedd. Rhaid i unrhyw newidiadau a wneir gael eu cymeradwyo gan Bwyllgor Archwilio yr Awdurdod.

ATODIAD 1 - Diffiniadau a Dehongliadau

Addasu Contractau	Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn egluro i ba raddau y gellir newid contract ar ôl ei ddyfarnu heb fod angen ei ailhysbysebu yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Gweler Rheoliad 72 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (2015) sy'n amlinellu'r manylion.
Awdurdod	Bydd pob cyfeiriad at yr "Awdurdod" yn y Rheolau hyn o ran Gweithdrefnau Contractau yn cynnwys Corff Llywodraethu pob ysgol sy'n dod o dan awdurdodaeth yr Awdurdod fel yr Awdurdod Addysg Lleol os bydd yn berthnasol.
Bond	Bwriedir i fond ddiogelu'r Cyngor rhag lefel o gost sy'n deillio o fethiant contractwr.
Budd i'r Gymuned	Drwy'r ymarferiad tendro, ceisio hybu cyfleoedd ychwanegol a fydd o fudd i'r gymuned ehangach. Gallai hynny gynnwys cyfleoedd o ran hyfforddiant a gwaith, gwella'r cyfleoedd o ran y gadwyn gyflenwi, rhagor o gyfraniadau addysgol a/neu fentrau cymunedol.
Cofrestr Contractau	Cofrestr o gontractau a fframweithiau a ddyfernir yn yr Awdurdod, a gedwir gan yr Uned Caffael Corfforaethol.
Contract	Unrhyw gytundeb (boed hwnnw'n ysgrifenedig ai peidio) rhwng yr Awdurdod ac un neu fwy o bartïon ar gyfer:- <ul style="list-style-type: none"> • gwerthu nwyddau neu ddeunyddiau; • cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau; • cyflawni gwaith • darparu gwasanaethau (gan gynnwys adeiladau a chyfleusterau).
Contract Corfforaethol	Contractau ar gyfer Nwyddau/Gwaith neu Wasanaethau sy'n cael eu llunio at ddefnydd holl adrannau'r Cyngor. Mae'r contractau hyn yn galluogi swyddogion i gael nwyddau/gwasanaethau yn effeithiol ac yn effeithlon.
Contractwr	gweler Cyflenwr
Corff Arweiniol	Unrhyw gorff y caniateir yn gyfreithlon i'r Awdurdod gaffael gydag ef neu drwyddo, gan gynnwys Adrannau'r Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol eraill a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus e.e. y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.
Cydgasglu	Cyfuno gwerth y contractau ar wahân ar gyfer yr un cyflenwad, gwasanaeth a gwaith.
Cyflenwr	Cyflenwr gwaith, nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor.
Cyfnod Segur	Y cyfnod lleiaf gofynnol rhwng hysbysu ynghylch penderfyniad i ddyfarnu contract a dechrau'r contract hwnnw. Yn y Deyrnas Unedig y cyfnod segur yw 10 diwrnod.
Cytundeb Fframwaith	Cytundeb rhwng un neu ragor o awdurdodau / cyrff cyhoeddus ac un neu ragor o weithredwyr economaidd, er mwyn sefydlu'r telerau sy'n rheoli contractau sydd i'w rhoi yn ystod cyfnod penodol (trefniant yn ôl y gofyn).

Dyfnbris	Dyfnbris sy'n seiliedig ar bris ac unrhyw fater perthnasol arall, heb gyhoeddi tendr ffurfiol.
e-Ocsiwn	Mae e-Ocsiwn (ocsiwn electronig) yn farchnad electronig rhwng prynwyr a chynigwyr, a ddefnyddir fel rhan o feini prawf costio yr ymarferiad gwerthuso tendrau.
Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS)	Mae Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru, a gynhelir gan Lywodraeth Cymru, yn cydweithio â sefydliadau sector cyhoeddus i wneud trefniadau cydweithio mewn meysydd lle mae gwariant cyffredin ac ailadroddus.
Gweithred Tendr Unigol	Dim ond mewn amgylchiadau prin ac eithriadol y dylid defnyddio Gweithred Tendr Unigol. Diffiniad bras o hyn yw caffael heb geisio cystadleuaeth neu os nad oes cystadleuaeth ar gael yn y farchnad. Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol i bob gweithred tendr unigol sy'n uwch na throthwy'r UE.
Gweithdrefnau Tendro	Agored - Gwahoddir yr holl ymgeiswyr cymwys i dendro mewn proses gaffael un cam.
	Cyfyngedig - Dim ond ymgeiswyr cymwys sy'n bodloni meini prawf yr awdurdod sy'n cael gwahoddiad i dendro mewn proses gaffael dau gam.
	Gweithdrefn Gystadleuol drwy negodi -Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r awdurdod contractio ynghylch a ddylid negodi - mae'n bosibl cadw'r hawl (drwy nodi hyn yn yr hysbyseb yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd) i beidio â negodi a dyfarnu'r contract ar sail y tendrau cychwynol a gyflwynwyd.
	Trafodaeth Gystadleuol - Mae hyn yn caniatáu trafod gwahanol ddewisiadau cyn dewis ateb penodol. Gellir ei defnyddio mewn contractau cymhleth lle mae'n anodd diffinio atebion technegol neu os oes angen datblygu'r ateb gorau. Mae'r weithdrefn hon yn cynnwys mwy o hyblygrwydd o ran negodi â'r tendrwr llwyddiannus (ar yr amod nad yw hyn yn addasu'r agweddau hanfodol ar y contract neu'r ymarferiad caffael neu'n gyfystyr ag ystumio cystadleuaeth).
	Partneriaeth Arloesol - Mae'r broses hon yn caniatáu ar gyfer ymchwil a datblygu a phrynu cynnyrch neu wasanaeth o fewn yr un broses gaffael sengl (sy'n cynnwys tryloywder a threfniadau diogelu eraill).
	Gweithdrefn drwy Negodi heb Hysbysu Ymlaen Llaw - Gellir defnyddio'r weithdrefn hon dim ond mewn amgylchiadau sydd wedi'u diffinio'n fanwl e.e. lle na gyflwynwyd dim tendrau, dim tendrau addas neu ddim ceisiadau addas i gymryd rhan mewn ymateb i weithdrefn agored neu gyfyngedig, neu os, am resymau technegol neu artistig, neu er mwyn diogelu hawliau unigryw, y gall y contract gael ei gyflawni gan gyflenwr penodol yn unig. Dylid ond defnyddio'r broses hon mewn achosion eithriadol.

	Mae rhagor o fanylion am yr holl weithdrefnau ar gael yn y Canllawiau Caffael.
Mini-gystadleuaeth/Contract yn ôl y gofyn	Mini-gystadleuaeth yw'r broses a ddilynir i roi contract yn ôl y gofyn o dan gytundeb fframwaith lle nad yw'r cyflenwr gwerth gorau wedi'i bennu yn nhelerau gwreiddiol y cytundeb fframwaith. Gwahoddir yr holl gyflenwyr yn y cytundeb fframwaith gwreiddiol i gyflwyno cynigion ar sail y telerau gwreiddiol.
Paneli Gwerthuso Tendrau	Grŵp o swyddogion a benodir gan y Swyddog Arweiniol i ymgymryd ag ymarferiad gwerthuso tendrau ar gyfer contract neu fframwaith. Bydd y grŵp o swyddogion dan sylw fel arfer yn parhau'n ddigyfnewid drwy gydol y broses, a bydd ganddynt y cymwysterau a/neu'r arbenigedd angenrheidiol i gynghori'r Swyddog Arweiniol ar faterion technegol, caffael, cyfreithiol, ariannol, polisi a staffio.
Rheoli Contractau	Sicrhau bod y cytundeb contractiol iawn ar gyfer y sefydliad yn cael ei sefydlu a'i reoli yn y modd mwyaf effeithiol, gan alluogi'r ddwy ochr i gyflawni eu hymrwymadau'n llawn a darparu gwasanaeth/cynnyrch o'r ansawdd iawn, ar amser, yn unol â'r gyllideb gan gydymffurfio â gofynion y fanyleb.
Rhestr Gymeradwy	Mae rhestr gymeradwy/ddethol yn peri risg sylweddol i'r Awdurdod ac nid argymhellir hynny'n arfer caffael derbynol. Rhaid cael caniatâd ymlaen llaw gan Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151 cyn llunio neu fabwysiadu rhestr dendro gymeradwy/ddethol.
Swyddog Adran 151	Y swyddog a ddynodir gan yr Awdurdod o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sy'n ymgymryd â'r rôl hon ar hyn o bryd.
Swyddog Arweiniol	Bydd y Swyddog Arweiniol yn gyfrifol am y broses gaffael ac ar ôl dyfarnu'r contract y swyddog hwnnw fydd y prif gyswllt rhwng yr Awdurdod a'r cyflenwr perthnasol. Y Swyddog Arweiniol fydd yn gyfrifol am reoli'r trefniant contractiol hwnnw ac am sicrhau bod y pris(iau) a delir yn unol â thelerau'r contract.
Swyddog Monitro	Y Swyddog Monitro yw'r swyddog a ddynodir gan yr Awdurdod yn unol â darpariaethau Adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith sy'n ymgymryd â'r rôl hon ar hyn o bryd.
System Bwrcasu Ddeinamig	Offeryn caffael sy'n gwbl electronig ac sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pryniannau a wneir yn aml gan ganiatáu i gyflenwyr newydd ymuno ar unrhyw adeg.
Tendr	Cynnig gweithredwr economaidd a gyflwynir mewn ymateb i wahoddiad i dendro.

Tendr afresymol o isel	At ddiben y rheolau hyn ystyr afresymol o isel yw tendr yr ystyrir bod ei bris yn sylweddol is na'r rhan fwyaf o'r holl dendrau, neu gyfartaledd yr holl dendrau, yn yr un ymarferiad tendro.
Tendr Mwyaf Manteisiol yn Economaidd (MEAT)	Y tendr a fydd yn dod â'r budd mwyaf i'r Awdurdod yn sgil ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys ansawdd a phris.
Trefn Lai Manwl	Mae'r drefn lai manwl newydd yn gyfres benodol o reolau ar gyfer rhai contractau gwasanaeth sy'n tueddu i fod â llai o ddiddordeb i gystadleuaeth drawsffiniol. Mae'r contractau gwasanaeth hynny yn cynnwys rhai gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg fel y diffinnir gan godau Geirfa Caffael Gyffredin sydd wedi'u hamlinellu yn Atodlen 3 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus (2015).
Trothwy'r UE	Gwerth y contract lle mae Cyfarwydddeb Contractau Cyhoeddus yr Undeb Ewropeaidd yn berthnasol. Mae'r rhain yn newid ym mis Ionawr bob dwy flynedd.
Uned Caffael Corfforaethol	Mae Uned Caffael Corfforaethol yr Awdurdod yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad ynghylch Caffael.